

# AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid



Ariennir yn Rhannol gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Part Funded by  
**Welsh Government**

Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

## Cynyddu Cyfleoedd Datblygu Sgiliau Cyflogadwyedd i Ffoaduriaid yng Nghymru

### Cyflwyniad i AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu rhaglen arloesol o gymorth i ffoaduriaid drwy AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid.

Ei nod yw darparu cymorth uchelgeisiol a blaengar, yn bennaf yn y pedwar prif glwstwr lle gosodwyd ceiswyr lloches yng Nghymru (Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam). Mae'r prosiect hefyd am wella mynediad at hyfforddiant iaith, gwella cyflogadwyedd, a rhannu gwybodaeth ddiwylliannol leol er mwyn cynorthwyo ffoaduriaid i integreiddio. Cynhelir asesiad holistaidd o anghenion ein cleientiaid er mwyn iddynt gael y math cywir o gymorth i hybu eu hymdrechion i integreiddio i'r gymdeithas. Mae'r prosiect yn chwarae rhan allweddol yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cymru yn 'Genedl Noddfa'.

Mae pedair elfen rhyng-gysylltiedig i'r prosiect:

- Y Ganolfan Integreiddio;
- Canolfannau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL);
- Ymgysylltu â chyflogwyr ledled Cymru; a
- Datblygu gwefan integreiddio ffoaduriaid ar gyfer Cymru gyfan.

### Y Ganolfan Integreiddio

Mae'r Ganolfan Integreiddio yn darparu gwasanaeth cynghori i unigolion yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam, lle gallant alw i mewn. Mae'n cynnal asesiadau holistaidd o anghenion o ran gwersi iaith, hyfforddiant sgiliau gwaith a sgiliau eraill, a bydd yn penodi gweithiwr achos neu fentor ar gyfer pob cleient a fydd yn cadw cysylltiad rheolaidd â'r unigolyn, yn nodi rhwystrau yn y broses integreiddio a'u datrys, ac yn monitro'r cynnydd dros amser.

Os oes angen cymorth iaith ar unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae'r Ganolfan Integreiddio yn eu cyfeirio at ganolfan ESOL. Lle bydd angen cymorth gyda sgiliau cyflogadwyedd, mae'r Ganolfan Integreiddio yn trefnu i ddechrau i unigolion gymryd rhan mewn cynlluniau cymorth cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli, ee Cymunedau am Waith; a lle bo'n briodol, mae hefyd yn darparu ei hyfforddiant sgiliau gwaith ei hun, er enghraifft help i ysgrifennu CV, deall deddfwriaeth Cymru neu'r DU mewn perthynas â safonau gweithleoedd, cael tystysgrifau iechyd a diogelwch ac ati. Mae'r Ganolfan Integreiddio hefyd yn trefnu i gymwysterau gael eu cydnabod neu'n annog gweithleoedd i gydnabod cyrsiau dysgu a ddilynwyd gan unigolion yn flaenorol, lle bo'n bosibl drwy'r Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar gyfer Cydnabyddiaeth Academaidd (NARIC) sy'n cymharu cymwysterau gwledydd gwahanol. NARIC yw'r unig ffynhonnell wybodaeth swyddogol ynghylch systemau addysg a hyfforddiant rhyngwladol, a chymwysterau a sgiliau rhyngwladol eang a enillir y tu allan i'r DU. Yn ogystal, mae'r Ganolfan Integreiddio yn gweithredu cronfa benodol sy'n sicrhau bod y gwasanaeth yn hyblyg er mwyn ymateb i anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

## **Canolfannau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)**



Darparwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Hwb Asesu Rhanbarthol ESOL (REACH) Caerdydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, hwb cynaliadwy sy'n cynnal asesiadau o hyfedredd ieithyddol y rheini sydd angen gwersi iaith, cronfa ddata o ddarpariaeth ESOL yr ardal, a gwasanaeth cyfeirio mwy priodol ar gyfer unigolion i ddsbarth a fydd yn eu helpu i ddysgu iaith. Mae prosiect AilGychwyn wedi cyflwyno'r gwasanaeth hwn i dair ardal loches arall Cymru – Abertawe, Casnewydd a Wrecsam.

Mae sefydlu Canolfannau ESOL ar gyfer pob un o'r prif ardaloedd yng Nghymru lle mae ffoaduriaid wedi'u lleoli yn helpu'r unigolion hynny i gael gafael ar ddarpariaeth ESOL yn fwy cyflym ac i symud ymlaen wrth iddynt gael eu cyfeirio at ddsbarth sy'n fwy addas i'w gallu, yn hytrach nag ar sail eu statws fel mewnfydwyr. Caiff y canolfannau eu gweinyddu'n ganolog mewn un safle ym mhob un o'r pedair ardal wahanol, a darperir gwasanaeth peripatetig gan bartneriaid addysg oedolion.



## AilGychwyn Llywodraeth Cymru : Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid



Dechreuodd buddiolwyr ddefnyddio'r gwasanaethau ym Mehefin 2019 yng Nghaerdydd, wrth i weithwyr gael eu recriwtio, wrth i gronfeydd data a phrosesau gael eu datblygu, ac wrth i leoliadau gael eu paratoi. Mae'r lleoliadau eraill wedi bod ar gael ers Gorffennaf 2019.

Darperir y gwasanaethau hyn gan gonsortiw m a arweinir gan Goleg Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys Coleg Gŵyr (Abertawe), Coleg Gwent (Casnewydd) a Chyngor Casnewydd, Coleg Cambria (Wrecsam), ac Addysg Oedolion Cymru.

Mae'r canolfannau integreiddio a'r canolfannau ESOL ar yr un safle yn y lleoliadau canlynol:

- **Caerdydd** – Coleg Caerdydd a'r Fro (ar Gampws REACH yng nghanol y ddinas, Dumballs Road);
- **Casnewydd** – Cyngor Casnewydd a Choleg Gwent (yn llyfrgell canol Casnewydd);
- **Abertawe** – Coleg Gŵyr Abertawe (yng Nghanolfan Kingsway, Abertawe);
- **Wrecsam** – Coleg Cambria (ar Gampws Coleg Iâl, Wrecsam).

## Ymgysylltu â chyflogwyr ledled Cymru

Mae'r prosiect yn cyllido tri Swyddog Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr, a fydd yn gweithredu ledled Cymru, gan gynyddu'r cyfleoedd mewn gweithleoedd ar gyfer yr unigolion sy'n mynychu'r canolfannau ESOL. Maent yn gweithredu ar sail ranbarthol (dau swyddog yn y De ac un yn y Gogledd), gan weithio'n agos gyda chyflogwyr a nodi cyfleoedd yn y farchnad swyddi leol i arddangos asedau ein cleientiaid.

Bydd y swyddogion yn nodi'r chyflogwyr mawr a'r mentrau bach a chanolig hynny sy'n gweithio ledled Cymru er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gwaith/lleoliadau i ffoaduriaid o fewn pob un o'r pedair ardal. Nod y prosiect yw dod i gysylltiad â 'chwmnïau angori' Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn cael effaith ehangach.



Bydd y Swyddogion Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr hefyd yn ceisio addysgu chyflogwyr mewn perthynas â'r gwahaniaethau rhwng ffoaduriaid, ceiswyr lloches a mudwyr eraill, ac ynghylch cyfyngiadau o ran cyflogaeth.

## Datblygu gwefan integreiddio ffoaduriaid ar gyfer Cymru gyfan

Gan fod y dulliau a ddefnyddir yn y prosiect yn arloesol a bod cyfnod penodedig wedi'i osod ar gyfer y cyllid, mae'n hollbwysig bod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu er mwyn datblygu gwasanaeth o'r math hwn yn y dyfodol yng Nghymru. Caiff gwefan ddwyieithog ei datblygu, a rhoddir cyhoeddusrwydd helaeth iddi, i arddangos effeithiolrwydd dulliau'r prosiect hwn sydd ag amcanion penodol (yn ogystal â gweithgareddau integreiddio eraill â chymunedau mudwyr yng Nghymru), datblygir storfa o ddata ac adnoddau ar fudo ac ailsefydlu, ac ategir gwaith partneriaeth rhwng cyrff lleol a chenedlaethol ac unigolion sy'n gweithio yn y maes.

Rheolir y wefan gan Lywodraeth Cymru drwy Objective Connect, sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar gyfer prosiectau eraill gan Lywodraeth Cymru, ee Tasglu'r Cymoedd. Mae swyddogion cydraddoldeb mewn trafodaethau cychwynnol ar hyn o bryd gyda Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru er mwyn gweld sut y gallant, efallai, gefnogi'r gwaith hwn.

## Ein cleientiaid a'u cyflogaeth yn y DU

Gwyddom fod llawer o'n cleientiaid mewn gwaith cyflogedig cyn iddynt gyrraedd y DU [1] â chymwysterau, sgiliau a phrofiad o amrywiaeth eang o rolau, ond fod llawer yn ei chael yn anodd dod o hyd i swyddi yn y DU sy'n addas i'w gallu. O ganlyniad, caiff sgiliau, profiad neu gymwysterau gwerthfawr fynd yn angof heb i fusnesau allu manteisio arnynt. Nod AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid yw paratoi ar gyfer y marchnadoedd cyflogaeth lleol a helpu busnesau yng Nghymru i ddeall manteision posibl cyflogi'r ymgeiswyr hyn.

## Yr hyn y dylech ei wybod:

O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig 1951 mewn perthynas â statws ffoaduriaid, caniateir i ffoaduriaid weithio yn y DU heb unrhyw gyfyngiadau o ran proffesiwn neu lefel sgiliau. Mae'n bwysig cofio bod y rheolau sy'n ymwneud â cheiswyr lloches yn wahanol i'r rheini sy'n ymwneud â ffoaduriaid. Oherwydd cyfyngiadau ar fewnfudo, caiff ceiswyr lloches eu gwahardd rhag gweithio yn y DU yn gyffredinol, gan mai pobl ydynt sydd wedi gadael eu gwlad ac wedi gwneud cais am ddiogelwch mewn gwlad arall, ond nad yw eu cais wedi'i benderfynu eto. Dim ond i ffoaduriaid y mae cymorth AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid yn berthnasol. Mae yna ddolen ddefnyddiol y gellir ei defnyddio i wirio p'un a oes gan unigolyn y caniatâd priodol i weithio yn y DU: [www.gov.uk/legal-right-work-uk](http://www.gov.uk/legal-right-work-uk).

## Pa rwystrau sy'n codi i'n cleientiaid wrth chwilio am waith?

Yn aml, mae'r unigolion hyn wedi bod yn gweithio yn eu gwledydd eu hunain, ac mae ganddynt gymwysterau neu addysg brifysgol [1] ac, yn ôl gwaith ymchwil gan Sefydliad Nuffield [2] mae llawer yn dod â sgiliau a phrofiad o amrywiaeth eang o rolau i'r DU. Mae ganddynt frwdfrydedd ac maent yn awyddus i ddod o hyd i waith a gwneud cyfraniad i'r economi leol. Mae 73% ohonynt yn llwyddo i gadw eu swyddi, sy'n uwch na chanran poblogaeth gyffredinol UDA [3]; fodd bynnag, yn aml dânt ar draws nifer o rwystrau sy'n eu hatal rhag dod o hyd i gyflogaeth y maent yn ei mwynhau [4]:

- Sgiliau Saesneg.
- Bylchau yn eu hanes cyflogaeth.
- Diffyg profiad gwaith yn y DU.
- Diffyg gwybodaeth am y farchnad swyddi leol.
- Y ffaith eu bod yn anghyfarwydd â'r prosesau recriwtio.
- Dim mynediad at gyflogwr blaenorol i gael geirda.
- Dim disgwyliad diwylliannol i weithio yn eu gwlad wreiddiol (perthnasol i fenywod yn arbennig).
- Anhawster cael cydnabyddiaeth i'w cymwysterau a'u profiad blaenorol.
- Canfyddiad cyflogwyr bod gormod o gymwysterau ganddynt neu ddim digon.
- Ansicrwydd cyflogwyr ynghylch eu hawl i weithio a beth yw'r cyfyngiadau.

Caiff llawer o swyddi gwag eu hysbysebu ar-lein neu drwy rwydweithiau busnes, ac nid ydynt yn cyrraedd y gymuned ffoaduriaid. Mae'r unigolion hyn yn gallu dod o hyd i waith ac maent yn gwneud, ond mae hyn yn tueddu i ddigwydd pan fydd eu cymunedau eu hunain yn lledu'r gair am swydd, neu cânt swyddi sgiliau isel y farchnad lafur gan ennill 55% yn llai yr wythnos na'r rheini a anwyd yn y DU a 38% yn llai yr awr [5].

## Beth all AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid ei gynnig i'w gleientiaid?

Nod AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid yw darparu cymorth arbenigol pwrpasol ar gyfer cleientiaid i'w helpu i oresgyn y rhwystrau i gyflogaeth. Ar ddechrau eu taith, bydd pob unigolyn yn cael asesiad holistaidd a fydd yn nodi unrhyw rwystrau y maent yn eu hwynebu o ran integreiddio, ac ymdrechir i leihau'r rhwystrau hynny drwy gynnig gwasanaethau o fewn y prosiect neu nodi cyfleoedd sy'n addas i'w hanghenion nhw fel unigolion. Gallai hyn gynnwys:

- Asesiad iaith a chwrs Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) priodol.
- Cymorth i gael gwaith gan gynnwys sgiliau cyflogadwyedd craidd a sgiliau digidol, chwilio am swydd, sgiliau cyfweliad, creu CV, brand personol a hunangyflogaeth.
- Cymorth i gael cydnabyddiaeth yn y DU ar gyfer cymwysterau a phrofiad a enillwyd y tu allan i'r DU, gan ddefnyddio'r Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar gyfer Cydnabyddiaeth Academaidd (NARIC).
- Profiad gwaith neu leoliadau gwaith gyda chyflogwyr i lenwi bylchau cyflogaeth a chael profiad o weithio yn y DU.



## Beth all AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid ei gynnig i fusnesau?

Mae rhai busnesau yng Nghymru wedi recriwtio ffoaduriaid, ac eto mae'r gyfradd ddiweithdra yn uchel [6] Mae eraill wedi ystyried recriwtio ffoaduriaid, efallai, ond bod ganddynt bryderon [3] ac yn anymwybodol efallai o'r manteision lawer sydd wedi dod i ran busnesau eraill yn sgil cyflogi'r unigolion gwydn a phenderfynol hyn. Gall AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid roi cymorth i fusnesau drwy'r tri Swyddog Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr, sy'n gweithio ym mhedair ardal Cymru: Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Prif rôl y Swyddogion Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr yw cydweithio'n agos â busnesau sydd wedi ystyried recriwtio ffoaduriaid ac ymdrin ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r swyddogion hyn yn cynnig ystod o fanteision i fusnesau:

- Gallant weithio gyda busnesau o bob math, ateb cwestiynau a nodi manteision recriwtio'r grŵp hwn o unigolion.
- Rhoddir cyfle i fusnesau chwilio'n ehangach am weithwyr addas gan gynnwys yr ymgeiswyr hyn sydd â sgiliau defnyddiol a phrofiad.
- Bydd y swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r canolfannau integreiddio ac yn cynnal perthynas agos er mwyn rhannu gwybodaeth am gleientiaid sy'n barod i weithio.



- Gall busnesau ddewis cynnig lleoliadau gwaith neu brofiad gwaith i'n cleientiaid.
- Mae rhai ymgeiswyr yn awyddus i wella eu Saesneg drwy dreulio amser mewn gweithle. Gall profiad gwaith neu leoliadau gwaith helpu unigolion i wella eu sgiliau iaith.
- Gall y swyddogion gynnig sesiynau dilynol cyson gyda'r cleient a'r cyflogwr er mwyn cael adroddiadau.
- Gall y swyddogion gydlynu sesiynau ymgysylltu ar gyfer cyflogwyr lleol er mwyn iddynt allu rhannu eu harferion gorau ac er mwyn i sectorau allu rhannu gwybodaeth â'i gilydd.

Wrth recriwtio, er ein bod yn croesawu ehangu'r cyfleoedd ymgeisio i gynnwys yr ymgeiswyr hyn, dylid dewis yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd bob amser. Os oes gan unigolyn nodwedd warchoddedig (ee mae'n ffoadur), ni cheir ei ddewis dros rywun nad oes ganddo nodwedd warchoddedig os nad yw mor addas ar gyfer y swydd a hysbysebwyd. Fodd bynnag, os bydd dau ymgeisydd sydd yr un mor addas â'i gilydd ar gyfer y swydd, a bod un yn ffoadur, a'i bod yn hysbys y gallai fod yn anoddach i'r ffoadur gael gwaith yn rhywle arall na'r llall, yna byddai'n addas ystyried hyn yn ffactor efallai o blaid ei gyflogi. Mae'n bwysig nodi nad yw AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid yn gosod rhwymedigaeth ar fusnes i recriwtio ymgeiswyr, gan fod pob proses a phenderfyniad recriwtio o dan reolaeth lawn annibynnol y cyflogwyr.

## Sut all eich busnes elwa?

- Mae ein cleientiaid yn dod i'r DU o gefndiroedd amrywiol, â sgiliau a phrofiadau addysg a gwaith [1].
- Mae cyfran fawr o'r ymgeiswyr hyn wedi cael addysg i lefel uchel. Mae'r gwaith ymchwil i Farchnad Lafur y DU yn nodi bod mwy o ffoaduriaid (31%) mewn addysg ar ôl 20 oed, o gymharu â'r rheini a godwyd yn y DU (23%) [7].
- Mae gwaith ymchwil TENT [3] wedi dangos bod y grŵp hwn o unigolion yn dangos brwdfrydedd mawr i ddod o hyd i waith a'i gadw, fel rhan o'r ymdrech i ddatblygu eu bywydau newydd yn y DU, a hefyd i wneud cyfraniad i'w cymuned leol.
- Mae llawer o'r ymgeiswyr hyn yn siarad sawl iaith, ac yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau Saesneg ymhellach.
- Mae llawer o'n cleientiaid wedi profi caledi yn eu gwledydd eu hunain ac maent wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi, symud i wlad arall a dechrau bywyd newydd yn y DU, sy'n brawf o'u gwytnwch, eu penderfyniad a'u dyfeisgarwch [8].
- Gall ein cleientiaid fod yn gyfle i fusnesau ddatblygu eu gweithlu presennol drwy hyfforddi, cefnogi a mentora gweithwyr newydd, sydd yn ei dro yn helpu i integreiddio'r ffoaduriaid eu hunain yn llwyddiannus mewn busnesau. Roedd gwaith ymchwil Busnes yn y Gymuned [9] yn dangos bod 90% o'r busnesau a wnaeth hyn ar eu hennill.
- Cyfrifwyd enillion cadarnhaol ar fuddsoddiad mewn 75% o achosion lle y cyflogwyd ffoaduriaid, ac roedd yr enillion a gafwyd rhwng 44% a 706% [10].

## Gwybodaeth Gyswilt Swyddogion Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr

Os hoffech gael gwybod mwy am recriwtio ffoaduriaid o AilGychwyn: Prosiect Integreiddio Ffoaduriaid a siarad â Swyddogion Ymgysylltu â Chyflogwyr eich ardal chi, cysylltwch â:

<b>Y Gogledd</b>	<b>Wrecsam</b> Graham Hughes Ebost: <a href="mailto:refugees@llyw.cymru">refugees@llyw.cymru</a> Ffôn: 0300 062 5365
<b>Y De</b>	<b>Abertawe</b> Nadir Taha Ebost: <a href="mailto:refugees@llyw.cymru">refugees@llyw.cymru</a> Ffôn: 0300 2500 29
	<b>Caerdydd a Chasnewydd</b> Lydia Brownlow Ebost: <a href="mailto:refugees@llyw.cymru">refugees@llyw.cymru</a> Ffôn: 0300 2509 47



## Llyfryddiaeth

- [1] Prifysgol Rhydychen, "Talent Displaced: The economic lives of syrian refugees in Europe," Deloitte a Chanolfan Astudiaethau Ffoaduriaid, Rhydychen, 2018.
- [2] Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Rhydychen, "Women refugees have more difficulty finding work and suffer greater health problems than their male counterparts.," Sefydliad Nuffield, 2013.
- [3] Sefydliad TENT a'r Sefydliad Polisi Cyllidol, "Refugees as employee: Good retention strong recruitment," 2018.
- [4] Rhwydwaith Cyflogi Ffoaduriaid, "Refugee Employment Support in the UK," Milestone Tweed, 2018.
- [5] Z. R. I. V.-S. C. Kone, "Refugees and the UK Labour Market," Compas, Sefydliad Nuffield, Prifysgol Rhydychen, 2019.
- [6] H. Crawley, "Asylum Seekers and Refugees in Wales," Partneriaeth Ymfudo Cymru, 2013.
- [7] I. V.-S. C. Ruiz, "Differences in labour market outcomes between natives, refugees and other migrants in the UK," COMPAS, 2017.
- [8] Uwch-Gomisynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig, Y Sefydliad Mudo Rhyngwladol a'r Cenhedloedd Unedig, Busnes yn y Gymuned, "Tapping Potential: Guidelines to Help British Businesses Employ Refugees," Swyddfa Gartref y DU, 2019.
- [9] Busnes yn y Gymuned, "The Business Benefits of Work Inclusion," 2015.
- [10] The Hague Process for Refugees and Migration, "The Return on Investment on Migration: What is in it for business?," 2015.